



Jac y Neidiwr

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enwau eraill: Ffromlys chwarennog

Enw gwyddonol: *Impatiens glandulifera* **Enwau Saesneg:** Himalayan Balsam, Indian Balsam

Beth yw Jac y Neidiwr?

Jac y Neidiwr yw'r mwyaf cyffredin o dri math o ffromlys estron a geir ym Mhrydain:

- 1 Jac y neidiwr (*Impatiens glandulifera*)
- 2 Ffromlys bach (*I. parviflora*)
- 3 Ffromlys oren (*I. capensis*)

Fel ag y mae'r enw Saesneg yn ei awgrymu, daeth Jac y neidiwr yn wreiddiol i Brydain o orllewin yr Himalaya. Cafodd y Ffromlys bach ei gyflwyno o Ganolbarth Tsieina a daeth y Ffromlys oren o Ogledd America.

Ble mae'r ffromlys estron yn tyfu?

Mae'r holl fathau o ffromlys estron yn tyfu wrth afonydd a chamlesi, pyllau a llynnoedd a mannau gwlyb eraill. Ond mae Jac y neidiwr yn tyfu'n aml hefyd ar dir segur ac yn amlach erbyn hyn mewn mannau sychach fel ymylon ffyrdd, wrth reilffyrdd ac ymylon caeau.

Sut mae Jac y neidiwr yn lledaenu?

Mae Jac y neidiwr yn lledaenu'n gyflym am ei fod yn cynhyrchu llawer o hadau (2,500 o hadau mân ar bob planhigyn) sy'n 'ffrwydro' o'r fam blanhigyn ac sy'n gallu arnofio. Mae pob coden hadau sy'n tyfu ar y fam blanhigyn yn dal 4-16 hedyn; bydd y goden yn ffrwydro pan gyffyrddir â hi, gan daflu'r hadau hyd at 7m oddi wrth y fam-blanhigyn. Mae'r hadau'n gallu arnofio i lawr afon, cael eu cario gan anifeiliaid a phobl a'u cario mewn pridd.


Deddfwriaeth

Oherwydd ei effeithiau drwg ar amgylchedd ac economi Prydain, mae Jac y neidiwr yn rhywogaeth sy'n destun pryder o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) sydd wedi'i chadw. Mae hynny'n golygu ei bod yn drosedd ei blannu neu beri ei fod yn tyfu yn y gwyllt, neu ei ryddhau'n fwiadol i'r amgylchedd. Mae Atodlen 4 o Orchymyn Rhywogaethau Estron Goresgynol (Gorfodi a Chaniatáu) 2019 yn tynnu'r planhigion a restrir o dan Reoliad IAS yr UE o Atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, gan greu'r un drosedd. Hefyd, mae deunydd â phlanhigion Jac y Neidiwr ynddo (gan gynnwys pridd â hadau ynddo) yn 'wastraff a reolir' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n golygu bod yn rhaid defnyddio cludwr gwastraff cofrestredig i'w gario i safleoedd cofrestredig. Rhaid cadw cofnodion cludo pob llwyth am o leiaf 2 flynedd.

Pam rheoli Jac y neidiwr?

Jac y neidiwr yw'r planhigyn blynyddol talaf yn Ewrop, sydd gyda'r cyntaf i feddiannu a dominyddu tir sydd newydd ei aflonyddu. Mae'n tyfu'n gyflym yn gynnar yn y tymor gan greu canopi trwchus clos sy'n cysgodi planhigion brodorol rhag goleuni'r haul. Mae'r twf cyflym hwn yn arwain at effeithiau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd drwg, gan gynnwys:

- **Dwyn cynefin a gostwng ei ansawdd** – lleihau'r amrywiaeth o blanhigion, infertebratau a fertebratau brodorol, newid cyflwr y pridd a lleihau gwasanaethau'r ecosystem.
- **Newid a dirywio cynefin** – effeithiau negyddol ar weoedd bwyd tir a dŵr croyw, yn enwedig trwy siltio cyrsiau dŵr.
- **Costau rheoli uchel** – tua £1 miliwn y flwyddyn trwy'r DU.
- **Ddim yn rhwymo pridd** – am fod ei wreiddiau'n fas iawn, nid yw Jac y neidiwr yn rhwymo pridd cystal â phlanhigion brodorol. Mae hynny'n cynyddu'r perygl o erydu; mae'r perygl yn fwy yn y gaeaf a'r gwanwyn pan fydd y planhigyn wedi marw yn ôl i'r pridd (gan amharu eto ar ei allu i rwymo pridd) a'r glawiad yn uwch.
- **Cyfyngu mynediad** – bydd ardaloedd amwynder yn anodd mynd iddyn nhw oherwydd trwch y tyfiant (e.e. pysgotwyr yn methu mynd at lan afonydd).



Sut i adnabod Jac y neidiwr

Sut olwg sy' arno?

Mae lluniau A-H yn dangos sut olwg sy' ar Jac y neidiwr ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

A = tyfiant llawn yng nghanol yr haf (2m o daldra); **B** = glannau'r un afon ag yn A ond yn y gaeaf (sylwch ar y coesau marw ar y dde a phrinder planhigion brodorol); **C** = tyfiant newydd o had (cotyledon ar y chwith, dail cyntaf ar y dde); **D** = planhigyn ifanc; **E** = tyfiant trwchus o blanhigion ifanc (sylwch ar y droellen o ddail a'r coesyn coch); **F** = coesyn pinc llawn nodd (suddlon) (sylwch ar y dail cyferbyn â'i gilydd ar nodau'r goes) – coesau'n ganghennog yn aml; **G** = blodau (persawrus; eu peillio gan bryfed); **H** = codau had aeddfed (c.2-3cm o hyd).



Ffynhonnell y lluniau (y dudalen hon a'r dudalen nesaf)

Trefniant dail ffromlys bach: © André Karwath 2005 – dolen: [https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Impatiens_parviflora_-_blossom_front_\(aka\).jpg#/media/File:Impatiens_parviflora_-_plant_\(aka\).jpg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Impatiens_parviflora_-_blossom_front_(aka).jpg#/media/File:Impatiens_parviflora_-_plant_(aka).jpg)

Siâp a maint dail ffromlys oren: © British Nature Guide 2014

Trefniant dail ffromlys oren: © Robert Flogaus-Faust 2013 – dolen: <https://www.biolib.cz/en/taxonimage/id395730/>

Strwythur a lliw blodau ffromlys oren: © Trevor Renals 2021

Siâp a maint dail ffromlys melyn: © Herbarium Online 2021


Trefniant dail ffromlys melyn: © Tatiana Gerus 2012 – link: [https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Impatiens_noli-tangere_\(7818663064\).jpg](https://commons.wikimedia.org/wiki/File:Impatiens_noli-tangere_(7818663064).jpg)

Strwythur a lliw dail ffromlys melyn: Peter Follett 2005 British Wild Flowers – link: <http://www.british-wild-flowers.co.uk/B-Flowers/Balsam,%20Touch-me-not.htm>



Y prif nodweddion er mwyn gallu eu hadnabod

Mae ffromlys brodorol a rhai estron yn eithaf tebyg i'w gilydd, er bod gwahaniaethau amlwg yn siâp a threfniant eu dail a lliw a maint eu blodau. Mae nodau amlwg ar goesau pob ffromlys (segmentau); wrth bob nod, gan ddibynnu ar y rhywogaeth, mae'r dail wedi'u paru gyferbyn â'i gilydd, wedi'u cysylltu am yn ail i fyny'r coesyn (h.y. nid yw'r dail yn tyfu gyferbyn â'i gilydd wrth bob nod) neu mewn cylch (troellen) o dair deilen. **Mae'r ffromlys melyn brodorol prin (*I. noli-tangere*) wedi'i gynnwys er gwybodaeth.** Sylwch – y mesuriadau heb gromfachau yw'r meintiau arferol; y mesuriadau mewn cromfachau yw'r meintiau a welir ambell waith.

Enw cyffredin	Jac y neidiwr	Ffromlys bach	Ffromlys oren	Ffromlys melyn
Uchder	Hyd at 2.0(3.0)m o daldra	Hyd at 0.6(1.0)m o daldra	Hyd at 0.6(1.5)m o daldra	Hyd at 0.6(1.0)m o daldra
Siâp a maint y dail isaf	 Hyd at 15cm o hyd	 Hyd at 10cm o hyd	 Tua 10cm o hyd	 Tua 10cm o hyd
Disgrifiad o'r dail isaf	Blaen fel picell; gwyrdd tywyll pan yn aeddfed; gwythïen ganol gochlyd; ymyl o ddannedd main (24-75 bob ochr)	Siâp hirgrwn neu blaen fel picell; ymyl o ddannedd main (20-30 bob ochr)	Siâp hirgrwn neu blaen fel picell; dannedd bras (6-12 bob ochr)	Siâp hirgrwn neu blaen fel picell; dannedd bras (6-15 bob ochr)
Trefiant y dail	 Cyferbyn (uchod) neu mewn cylch (isod) 	 Bob yn ail (eiledol)	 Bob yn ail (eiledol)	 Bob yn ail (eiledol)
Siâp, lliw a maint y blodau	 Pinc, porffor, gwyn; 4.0cm	 Melyn gwelw; 0.6-1.8cm	 Oren â smotiau coch/brown; 2-3.5cm	 Melyn â smotiau lled-frown; 2-3.5cm
Flowering period	Mehefin-Tachwedd	Mehefin-Hydrif	Mehefin-Medi	Mehefin-Medi


Cynllunio prosiect a bioddiogelwch

I gael gwybodaeth fanwl am sut i bennu amcanion eich rhaglen reoli planhigion goresgynnod, iechyd a diogelwch, bioddiogelwch ac arolygon, darllenwch [Gwybodaeth i fudiadau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru: Rheolaeth Ymarferol ar Glymog Japan](#) gan Lywodraeth Cymru. **Cofiwch fod bioddiogelwch yn agwedd bwysig iawn ar reoli Jac y neidiwr gan ei fod yn gwasgaru trwy hadau bychain (yn wahanol i Glymog Japan).**

Ymchwil

Ychydig sydd wedi'i gyhoeddi ynghylch sut i gael gwared ar Jac y neidiwr yn effeithiol mewn ffordd gynaliadwy gan nad oes llawer o astudiaethau maes wedi'u cynnal yn y maes. Gall y diffyg gwybodaeth hwn arwain at orddibynnu ar chwynladdwyr a dulliau rheoli costus, aflwyddiannus sy'n gofyn am lafur llawer o bobl. Nid oes yr un driniaeth heb ei beiau. Gall triniaethau heb chwynladdwyr fod yn drwm o ran allyriadau carbon a golygu llawer o lafur a chostau uwch. Prif nod unrhyw raglen reoli yw dod â'r planhigyn goresgynnod o dan reolaeth, ac adfer y llystyfiant brodorol iddynt allu ailgydio yn naturiol. Mae dull rheoli'n cael ei ystyried yn anghynaliadwy os nad yw'n debygol o lwyddo, bod y gwaith rheoli'n ddiddiwedd ac nad oes adfer i'r llystyfiant brodorol. Fe welwch dermau rheoli pwysig, gan gynnwys disgrifiadau o chwynladdwyr yn Atodiad 1.

Er bod llawer o ddulliau rheoli gwahanol yn lladd Jac y neidiwr, mae'r ffaith bod angen strategaeth tymor hir (3-5 mlynedd) yn golygu bod llawer o ddulliau ond yn addas ar gyfer lleiniau bach (<1,000m²); ar gyfer lleiniau mwy, efallai na fydd digon o adnoddau i wireddu amcanion y rhaglen reoli'n llwyddiannus (i'w reoli a/neu ddifa'n lleol). I ddangos hyn, mae'r graff isod yn amcangyfrif faint o amser fydd ei angen i dynnu â llaw, torri â llaw, strimio a chwistrellu 1 hectar (10,000m²) o Jac y neidiwr. Mae'n seiliedig ar ddata profion maes ar raddfa o 25m² (Jones pers comm. 2022)..



Amserau trin a ragwelir yn ôl dull fesul hectar (ha). Lle bo: tynnu â llaw = 10.0 wythnos; torri â llaw = 8.3 wythnos; strimio = 1.1 wythnos; chwistrellu = 0.6 wythnos. Mae wythnos yn golygu un person yn gweithio wythnos 40awr.



Cylch bywyd Jac y neidiwr - rheoli

Amseriad cyfnodau tyfu a thrin Jac y Neidiwr												
	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
Cyfnodau tyfu bras – gan ddibynnu ar y tywydd ac uchder y tir												
Eginiad cyntaf												
Eginiad eilaidd												
Twf yr eginblanhigyn												
Aeddfed (taldra uchaf)												
Blodeuo												
Cynhyrchu hadau												
Gwywo												
Trin – corfforol												
Tynnu a thorri												
Trin – biolegol (penodol ac amhenodol)*												
Pori												
Trin – cemegol												
Detholus												
Annetholus, anweddilliol (Glyffosad)												
Annetholus, gweddilliol												
*Pwysig: mae treialon wrthi'n cael eu cynnal â chyfryngau bioreoli all lletya'n benodol ar Jac y neidiwr (ffwng rhwd Puccinia komarovii var. glanduliferae), ond i lwyddo, mae angen magu straeniau eraill o ffwng rhwd. Nid yw'r ddogfen hon yn esbonio sut i ddefnyddio anifeiliaid pori (da byw) i reoli Jac y neidiwr. Mae honno'n broses gymhleth sy'n dibynnu ar natur y safle ac nid oes canllawiau wedi'u cyhoeddi eto.												

Pwysigrwydd cylch bywyd Jac y neidiwr

Er mwyn gallu rheoli planhigion goresgynol fel Jac y neidiwr sy'n lledaenu'n gyflym trwy had, yn effeithiol, rhaid eu rhwystro rhag blodeuo am sawl blwyddyn er mwyn lleihau'r banc hadau. Cyflyma'n y byd y mae hynny'n digwydd, lleia'n y byd o driniaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol gan leihau costau'r prosiect, y defnydd o chwynladdwyr ac allyriadau CO₂. Mae gan boblogaethau o Jac y neidiwr gronfa o hadau yn haenen ucha'r pridd (30,000 o hadau y m2) sy'n gallu byw am hyd at 3 blynedd. O dan rai amgylchiadau, mae modd cael gwared ar Jac y neidiwr yn lleol, ond mae wastad perygl y gall ddod yn ôl o ardaloedd eraill neu trwy lifogydd.

Mae'r argymhellion a gynigir isod yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil Advanced Invasives (sydd heb ei chyhoeddi) a'n dealltwriaeth o gylch bywyd Jac y neidiwr. Rydyn ni hefyd wedi holi barn arbenigwyr sydd wedi gweithio'n helaeth â Jac y neidiwr ym Mhrydain am yr argymhellion. Mae amseriad gwahanol gyfnodau yn nhwf Jac y neidiwr a phryd rydyn ni'n argymhell rhoi triniaeth i'w gweld uchod. Er bod pob dull cemegol a mecanyddol yn effeithiol, rhaid gwneud dair gwaith bob blwyddyn i wneud yn siŵr nad yw'r planhigyn yn hadu. O beidio â gwneud, gall ddod yn ôl a bydd y gwaith rheoli wedi methu. Sylwch mai amcangyfrifon yw'r cyfnodau tyfu yn y diagram a'u bod yn dibynnu ar y tywydd ac uchder y tir. Sylwch hefyd, cynhara'n y byd yn y tymor y cynhaliwch y broses, lleia' tebygol y bydd y planhigyn o dyfu i'w lawndwf, o flodeuo ac o hadu – **peidiwch â'u trin yn rhy hwyr yn y tymor rhag ichi wastraffu amser ac adnoddau a gwneud y gwaith rheoli rhwng tymhorau'n ofer. Cofiwch hefyd, cyflyma'n y byd y gwnewch chi ddechrau ei drin ar ôl iddo ymsefydlu, hawsa' a rhataf yn y byd y bydd hi i reoli'r boblogaeth.**

Manylion llawn y triniaethau

Argymhellir tri dull ffisegol (un yn defnyddio peiriannau, y ddau arall yn defnyddio llafur) a thair system Rheoli Plâu Integredig (IPM) ar gyfer rheoli Jac y neidiwr mewn ffordd gynaliadwy. Ym mlynedd pedair a phump rhaglen rheoli 5 mlynedd effeithiol sy'n defnyddio systemau IPM, gallwch ostwng lefelau'r chwynladdwyr gan y bydd modd rheoli'r ychydig blanhigion sydd ar ôl gan ddefnyddio peiriannau (er y bydd hynny'n cynyddu costau'r prosiect). **Peidiwch â thorri Jac y Neidiwr os yw'n tyfu yng nghanol Clymog Japan gan y gallai hynny ledaenu'r clymog a lleihau effeithiolrwydd plaladdwyr Glyffosad ar y clymog.**

Jac y neidwr - manylion y triniaethau

Triniaeth 1: System reoli gorfforol - Torri

- Ger dŵr: Cewch
- Pa mor aml: Torri dair gwaith y flwyddyn, ym mhob blwyddyn trin
- Chwynladdwr: Dim
- Dull: Eu torri gan ddefnyddio peiriannau (e.e. brush cutter, peiriant lladd gwair, peiriant ffustio (flail)) gan dorri o dan nod gyntaf y coesyn; o dorri uwchben y nod cyntaf, bydd y planhigyn yn dal i dyfu gan ganghennu, blodeuo a hadu. Sylwch: bydd angen i beiriannau mawr allu dod i'r safle.
- Faint: Amherthnasol
- Amseriad: Dechreuwch dorri'r planhigion pan fyddan nhw'n ddigon mawr ichi allu eu torri'n gywir o dan y nod cyntaf (tua 50cm o daldra) o fis Mawrth/Ebrill; gan dorri dair gwaith rhwng Mawrth/Ebrill ac Awst. Cynhaliwch y toriad cyntaf ym Mawrth/Ebrill, yr ail rhwng Mai a Gorffennaf a'r trydydd yng Gorffennaf/Awst.

Triniaeth 1: Amseriad y dull rheoli. Gwyrdd = toriad cyntaf; glas = ail doriad; coch = trydydd toriad.												
	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
Triniaeth 1: System reoli gorfforol - Torri												
Toriad 1af												
2ail doriad												
3ydd toriad												

Triniaeth 1: Nodiadau

- Ceisiwch ddechrau'r holl driniaethau cyn gynted ag y medrwch cyn i'r planhigion gael cyfle i flodeuo a hadu. Cofiwch, gall planhigion sydd wedi blodeuo gynhyrchu hadau hyd yn oed ar ôl eu torri.
- Golchwch eich offer mewn man golchi penodedig (yn bell o ddŵr) cyn ichi fynd â nhw oddi ar y safle.
- Angen mwy o lafur a chynhyrchir mwy o allyriadau CO₂ na'r systemau IPM.
- Nid yw ymwrthedd Jac y neidiwr i chwynladdwyr yn berthnasol i'r driniaeth hon.



Triniaethau 2 & 3: Systemau rheoli corfforol – Tynnu a thorri â llaw

Ar gyfer lleiniau sy'n llai na 1,000 m², gall tynnu a thorri Jac y neidiwr fod yn ddull rheoli mwy addas os oes gennych lu o wirfoddolwyr brwd a threfnus. Er mai dim ond deirgwaith y flwyddyn y bydd angen cynnal y triniaethau eraill a argymhellir, mae tynnu a thorri Jac y neidiwr â llaw gan ddefnyddio tîm o wirfoddolwyr yn golygu gwaith parhaus. Bydd effeithiolrwydd y dull yn dibynnu ar waith monitro effeithiol a bod y planhigion yn cael eu torri a'u tynnu cyn gynted â'u bod yn cael eu gweld. Cofiwch fod tynnu a thorri â llaw yn waith corfforol trwm ac nad yw'n addas ar gyfer pob gwirfoddolwr. Hefyd, gall fod yn anodd cynnal diddordeb gwirfoddolwyr mewn gwaith ailadroddus. Wrth gynllunio'r rhaglen reoli, dylech gadw'r ystyriaethau hyn mewn cof. Gallai fethu fel arall.

- **Ger dŵr:** Cewch
- **Pa mor aml:** Yn barhaus yn y tymor tyfu, ym mhob blwyddyn trin
- **Chwynladdwr:** Dim
- **Faint:** Amherthnasol
- **Dull tynnu:** Tynnwch y planhigyn cyfan, gan gynnwys y gwreiddiau; gafaelwch yn dynn yn y coesyn a'i dynnu i fyny'n benderfynol gan ofalu nad yw'r coesyn yn torri uwchben nod cyntaf y coesyn; bydd planhigion sy'n torri uwchben y nod cyntaf yn dal i dyfu gan ganghennu, blodeuo a hadu.
- **Pryd i dynnu:** Dechreuwch dynnu'r planhigion pan fyddan nhw'n ddigon mawr ichi allu eu tynnu o'r ddaear yn gyfan (tua 50cm o daldra) rhwng Mawrth/Ebrill ac Awst; dylech barhau i'w codi rhag iddyn nhw gael cyfle i ddatblygu blodau a hadau. Dylech wneud o leiaf unwaith bob mis.
- **Dull torri:** Torrwch gan ddefnyddio offer llaw (e.e. machete, pladur) o dan nod cyntaf y coesyn; bydd planhigion sy'n cael eu torri uwchben y nod cyntaf yn dal i dyfu gan ganghennu, blodeuo a hadu.
- **Pryd i dorri:** Dechreuwch dorri'r planhigion pan fyddan nhw'n ddigon mawr ichi allu eu torri'n gywir o dan y nod cyntaf (tua 50cm o daldra) rhwng Mawrth/Ebrill ac Awst; dylech barhau i'w torri rhag iddyn nhw gael cyfle i ddatblygu blodau a hadau. Dylech wneud o leiaf unwaith bob mis.

Triniaethau 2 & 3: Amseriad y dull rheoli. Gwyrdd = eu torri neu eu tynnu'n barhaus.

	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
Triniaethau 2 a 3: Systemau rheoli corfforol – Tynnu a thorri â llaw												
Tynnu/torri												

Triniaethau 2 & 3: Nodiadau

- Gallwch dynnu a thorri wrth ymyl y dŵr ond gall tynnu â llaw yn arbennig gynyddu'r risg o erydiad; mae perygl mawr hefyd y daw yn ôl gyda llif yr afon a bydd cael ei wared ar lannau afonydd fel hyn yn waith araf.
- Cofiwch gall hadau barhau'n fyw ar flodau hyd yn oed ar ôl tynnu'r planhigyn.
- Bydd angen rhagor o offer: cribiniau, ffyrch a whilberi.
- Ceisiwch wneud cymaint o'r gwaith â phosibl ar ddechrau'r tymor tyfu pan fydd yn haws mynd at y planhigion a llai o wenyn (all eich pigo!); **peidiwch â gadael y gwaith tan y funud olaf.**
- Cytunwch ar brosesau da ar gyfer rheoli gwastraff cyn dechrau ar y gwaith gan y byddwch chi'n cynhyrchu llawer o wastraff. Crewch lwybrau a mannau gwaredu ymhell o unrhyw ddŵr i osgoi'r perygl y gall pentyrrau o wastraff sy'n cynnwys pridd a hadau o dymhorau tyfu cynt gael eu golchi i lawr yr afon gan lifogydd. **Peidiwch â rhoi unrhyw ddeunydd gwastraff mewn compost.**
- Mae deunydd â phlanhigion Jac y neidiwr ynddo (gan gynnwys pridd â hadau) yn 'wastraff a reolir' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 sy'n golygu bod yn rhaid defnyddio cludwr gwastraff cofrestredig i'w gludo i safle trwyddedig neu safle wedi'i eithrio; **peidiwch â mynd â phlanhigion neu bridd o'r ardal lle cafodd ei gynhyrchu.**
- Cadwch olwg ar y pentyrrau gwastraff o dro i dro am blanhigion sy'n tyfu o doriadau, rhag iddyn nhw flodeuo a hadu.
- **Peidiwch â gadael i Jac y neidiwr flodeuo na hadu.** Ond gallwch ddal blodau a chodau had yn ddiogel trwy roi brig y planhigyn mewn bag mawr tryloyw (er mwyn ichi allu gweld beth rydych yn ei wneud!) a'i dynnu oddi wrth weddill y planhigyn – ceisiwch osgoi gorfod gwneud hyn gan ei fod yn cymryd llawer o amser ac y bydd rhai hadau'n siŵr o ddianc. Rhowch y blodau a'r codau had gyda'r gwastraff arall, yn bell o unrhyw ddŵr gan ddilyn y mesurau bioddiogelwch gorau gan fod yr hadau'n ludiog ac yn glynu wrth esgidiau a dillad.
- Golchwch yr offer mewn man golchi pwrpasol (yn bell o unrhyw ddŵr) cyn mynd â nhw o'r safle.
- Mae angen mwy o lafur i dorri a thynnu â llaw na'r un o'r triniaethau eraill sy'n cael eu hargymell ac mae gwirfoddolwyr yn cynhyrchu llawer o CO₂ wrth deithio i'r safle.
- Nid yw ymwrthedd Jac y neidiwr i chwynladdwyr yn berthnasol i'r driniaeth hon.

Triniaeth 4: System Rheoli Plâu Integredig (IPM) - Glyffosad + thorri

- Ger dŵr: Cewch
- Pa mor aml: Glyffosad ddwywaith y flwyddyn, torri unwaith y flwyddyn, ym mhob blwyddyn trin
- Chwynladdwr: Glyffosad
- Dull: Chwistrellu'r dail gan ddefnyddio chwistrellydd mawr, llaw neu gefn – gall ‘weed wiper’ fod yn addas hefyd; torrwrch y planhigion gan ddefnyddio peiriannau (e.e. brush cutter, peiriant lladd gwair, peiriant ffustio(flail)) o dan nod cyntaf y coesyn; os byddwch yn torri uwchben y nod cyntaf, bydd y planhigyn yn dal i dyfu gan ganghennu, blodeuo a hadu. Sylwch: bydd angen i beiriannau mawr allu dod i'r safle.
- Faint: Hanner y mwyaf y caniateir ei wasgaru (darllenwch label y cynnyrch), ddwywaith y flwyddyn.
- Amseriad: Cynhaliwch bob un o'r tri rhwng Mawrth ac Awst. Rhwng y driniaeth Glyffosad gyntaf rhwng Mawrth a Mai, a'r ail driniaeth rhwng Ebrill a Mehefin. Torrwrch weddill Jac y neidiwr rhwng Mehefin ac Awst, fis ar ôl y driniaeth ddiwethaf â chwynladdwr a chyn i'r codau had ffurfio.

Triniaeth 4: Amseriad y dull rheoli. Gwyrdd = Chwistrelliad 1af; glas = 2il chwistrelliad; coch = torri.

	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
System Rheoli Plâu Integredig (IPM) - Glyffosad + thorri												
Triniaeth Glyffosad 1af												
Ail driniaeth Glyffosad												
Torri												

Triniaeth 4: Nodiadau

- Mae'r driniaeth hon yn effeithiol cyn torri, gan fod modd trin planhigion â phlaladdiwr cyn eu bod yn 50cm o daldra ym Mawrth/Ebrill.
- Ceisiwch ddechrau'r holl driniaethau cyn gynted ag y medrwch cyn i'r planhigion gael cyfle i flodeuo a hadu. Cofiwch, gall planhigion sydd wedi blodeuo gynhyrchu hadau hyd yn oed ar ôl eu torri ac ar ôl chwistrelliad aflwyddiannus o chwynladdwr.
- Golchwch yr offer mewn man golchi pwrpasol (yn bell o unrhyw ddŵr) cyn mynd â nhw o'r safle.
- Mae angen mwy o lafur a chynhyrchir mwy o CO₂ na systemau IPM eraill.
- Dylech ystyried ymwrthedd Jac i neidiwr i blaladdwyr a thrin y boblogaeth gyfan o fewn yr un tymor.



Jac y neidwr - manylion y triniaethau

Triniaeth 5: System Rheoli Plâu Integredig (IPM) – gweddillion + Glyffosad + thorri

- **Ger dŵr:** Na
- **Pa mor aml:** Chwynladdwr gweddilliol unwaith y flwyddyn, Glyffosad ddwywaith y flwyddyn, blynyddoedd 1 & 2; Glyffosad ddwywaith y flwyddyn, torri unwaith y flwyddyn, blynyddoedd 3 i 5.
- **Chwynladdwr:** Gweddilliol (e.e. flazasulfuron) + Glyffosad
- **Dull:** Chwistrellu pridd a dail gan ddefnyddio chwistrellydd mawr, llaw neu gefn.
- **Faint:** Y mwyaf a ganiateir o chwynladdwr gweddilliol (darllenwch label y cynnyrch) unwaith y flwyddyn; hanner y mwyaf a ganiateir o Glyffosad (darllenwch label y cynnyrch), ddwywaith y flwyddyn.
- **Amseriad:** Cynhaliwch y triniaethau rheoli rhwng Chwefror ac Awst.
Blynyddoedd 1 & 2: Gwasgarwch y chwynladdwr gweddilliol rhwng Chwefror ac Ebrill. Rhowch y chwistrelliad cyntaf o Glyffosad rhwng Ebrill a Mehefin a'r ail chwistrelliad o Glyffosad rhwng Mehefin ac Awst.
Blynyddoedd 3 i 5: Rhowch y chwistrelliad cyntaf o Glyffosad rhwng Mawrth a Mai a'r ail chwistrelliad o Glyffosad rhwng Ebrill a Mehefin. Dylech dorri'r Jac y neidiwr sy'n weddill rhwng Mehefin ac Awst, fis cyn rhoi chwynladdwr am y tro olaf a chyn i'r codau had ffurfio.

Triniaeth 5: Amseriad y dull rheoli. Gwyrdd = chwistrelliad 1af; glas = 2il chwistrelliad; coch = torri.

	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
System Rheoli Plâu Integredig (IPM) – Gweddilliol + Glyffosad + thorri												
Blynyddoedd 1 & 2												
Chwynladdwr gweddilliol												
Triniaeth Glyffosad 1af												
2il driniaeth Glyffosad												
Blynyddoedd 3 i 5												
Triniaeth Glyffosad 1af												
2il driniaeth Glyffosad												
Torri												

Triniaeth 5: Nodiadau

- Mae'r driniaeth hon yn effeithiol cyn torri, gan fod modd trin planhigion â phlaladdiwr cyn eu bod yn 50cm o daldra ym Mawrth/Ebrill.
- Ceisiwch ddechrau'r holl driniaethau cyn gynted ag y medrwch cyn i'r planhigion gael cyfle i flodeuo a hadu. Cofiwch, gall planhigion sydd wedi blodeuo gynhyrchu hadau hyd yn oed ar ôl eu torri ac ar ôl chwistrelliad aflwyddiannus o chwynladdwr.
- Mae cynnwys chwynladdwr gweddilliol yn y system IPM hon yn rhoi'r fantais o reoli poblogaethau o Jac y neidiwr yn gynt na'r triniaethau eraill a argymhellir. Peidiwch â defnyddio plaladdwyr gweddilliol am fwy na 2 flynedd er mwyn i blanhigion brodorol gael cyfle i ymadfer ym mlynnyddoedd 3-5 (gan leihau'r potensial i blanhigion goresgynnol ddod yn ôl i'r safle). Sylwch fod y system IPM hon yn cynhyrchu llai o CO₂ na thriniaethau eraill ac yn defnyddio llai o blaladdwyr ym mlynnyddoedd 3-5 y driniaeth na systemau IPM eraill.
- Nid yw plaladdwyr gweddilliol yn lladd planhigion Jac y neidiwr aeddfed; rhaid ei chwistrellu'n gynnar i reoli cyfran uchel o'r hadau sy'n egino ar ddechrau'r tymor tyfu.
- Mae plaladdwyr Glyffosad yn gweithio'n arafach ac yn llai effeithiol ar blanhigion yn ddiweddarach yn y tymor tyfu (o Orffennaf/Awst) sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf; argymhellir felly eu trin yn gynnar. **Sylwch mai nod yr ail driniaeth â Glyffosad yw rheoli planhigion sy'n egino'n hwyr a'r rheini lwyddodd i osgoi triniaethau cynt.**
- Golchwch yr offer mewn man golchi pwrpasol (yn bell o unrhyw ddŵr) cyn mynd â nhw o'r safle.
- Dylech ystyried ymwrthedd Jac i neidiwr i blaladdwyr a thrin y boblogaeth gyfan o fewn yr un tymor.



Jac y neidwr - manylion y triniaethau

Triniaeth 6: System Rheoli Plâu Integredig (IPM) – Detholus + Glyffosad

- Ger dŵr: Na
- Pa mor aml: Chwynladdwr detholus unwaith y flwyddyn, Glyffosad ddwywaith y flwyddyn, pob blwyddyn trin
- Chwynladdwr: Detholus (e.e. triclopyr) + Glyffosad
- Dull: Chwistrellu dail gan ddefnyddio chwistrellydd mawr, llaw neu gefn, gyda choes hir os medrir.
- Faint: Y mwyaf o ganiateir o chwynladdwr detholus (darllenwch label y cynnyrch) unwaith y flwyddyn; hanner y mwyaf a ganiateir Glyffosad (darllenwch label y cynnyrch), ddwywaith y flwyddyn.
- Amseriad: Cynhaliwch bob un o'r tri rhwng Mawrth ac Awst. Rhwng y driniaeth ddetholus rhwng Mawrth a Mai. Rhwng y chwistrelliad cyntaf o glyffosad rhwng Ebrill a Mai a'r ail driniaeth rhwng Mehefin ac Awst..

Triniaeth 6: Amseriad y dull rheoli. Gwyrdd = chwistrelliad 1af; glas = 2il chwistrelliad; coch = 3ydd chwistrelliad.												
	Ion	Chw	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gor	Aws	Med	Hyd	Tac	Rha
System Rheoli Plâu Integredig – Detholus + Glyffosad												
Chwynladdwr Detholus												
Triniaeth Glyffosad 1af												
2il driniaeth Glyffosad												

Triniaeth 6: Nodiadau

- Mae'r driniaeth hon yn effeithiol cyn torri, gan fod modd trin planhigion â phlaladdiwr cyn eu bod yn 50cm o daldra ym Mawrth/Ebrill.
- Ceisiwch ddechrau'r holl driniaethau cyn gynted ag y medrwch cyn i'r planhigion gael cyfle i flodeuo a hadu. Cofiwch, gall planhigion sydd wedi blodeuo gynhyrchu hadau hyd yn oed ar ôl eu torri ac ar ôl chwistrelliad aflwyddiannus o chwynladdwr.
- Nid yw plaladdwyr detholus yn lladd planhigion Jac y neidiwr aeddfed yn ddiweddarach yn y tymor tyfu (o Fai//Meh).
- Mae plaladdwyr glyffosad yn gweithio'n arafach ac yn llai effeithiol ar blanhigion yn ddiweddarach yn y tymor tyfu (o Orffennaf/Awst) sydd wedi cyrraedd eu llawn dwf; argymhellir felly eu trin yn gynnar. Sylwch mai nod yr ail driniaeth â glyffosad yw rheoli planhigion sy'n egino'n hwyr a'r rheini lwyddodd i osgoi triniaethau cynt.
- Ceisiwch gynnal yr holl driniaethau cyn gynted ag y medrwch, cyn i flodau a chodau had gael cyfle i ffurfio; os ydych yn chwistrellu chwynladdwyr yn hwyr a bod codau had wedi ffurfio, gallwch dorri'r planhigion Jac y neidiwr hynny gan ddefnyddio peiriannau rhwng Gorffennaf ac Awst.
- Golchwch yr offer mewn man golchi pwrpasol (yn bell o unrhyw ddŵr) cyn mynd â nhw o'r safle.
- Dim ond Triniaeth 5 (system IPM – Gweddilliol + Glyffosad + Thorri) sy'n defnyddio llai o lafur ac yn cynhyrchu llai o CO₂.
- Dylech ystyried ymrwethedd Jac i neidiwr i blaladdwyr a thrin y boblogaeth gyfan o fewn yr un tymor.



Gwnewch hyn

Byddwch yn rheoli Jac y neidiwr yn fwy llwyddiannus trwy feddwl am y canlynol:

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar label y chwynladdwr bob tro a pheidiwch â rhoi mwy na'r dos ar y label.
- Gofalwch fod gan y rheini sy'n defnyddio chwynladdwr y cymwysterau i allu gwneud ac ystyriwch ddefnyddio contractwyr arbenigol. **Fe welwch fanylion cwmnïau a chontractwyr sydd wedi cael eu hachredu yn nogfen Llywodraeth Cymru [Gwybodaeth i fudiadau cymunedol a gwirfoddol yng Nghymru: Rheolaeth Ymarferol ar Glymog Japan](#).**
- **Amseriad** – yr allwedd i gael gwared ar Jac y neidiwr yw ei rwystro rhag hadu a gwacau'r banc hadau; mae angen gweithredu'n gynnar yn y tymor er mwyn arbed llafur a chwynladdwr yn ddiweddarach yn y tymor tyfu pan fydd y planhigion yn fwy.
- **Gwasgaru** – mae'n bwysig gwasgaru'r chwynladdwr yn dda a'i gael ar y rhan fwyaf o'r dail. Gallwch wneud hyn trwy gadw coes y chwistrelli i symud wrth ichi wasgaru'r chwynladdwr. **Nid oes angen gormodedd o chwynladdwr i gael y canlyniadau gorau.** Mae'n bwysig bod y person sy'n ei chwistrellu yn gwneud ei waith yn drylwyr. Rhowch chwynladdwr gweddilliol ar y pridd cyn i'r planhigion egino a'i wasgaru'n gyfartal.
- **Gwella'r chwynladdwr** – mae adjuvants/surfactants yn helpu i sicrhau bod pob chwistrelliad yn cyfrif. Mae adjiwffant (adjuvant) yn sicrhau bod y chwynladdwr yn glynu wrth y ddeilen – a bod y planhigyn felly'n ei amsugno'n well, ac mae'r arwynebydd (surfactant) yn sicrhau nad yw'r chwynladdwr yn cael ei olchi i ffwrdd gan y glaw.

- **Amsugno'r chwynladdwr** – defnyddiwch gyflyrwyr dŵr i wella perfformiad glyffosad. Mae glyffosad yn gallu glynu wrth halwynau yn y dŵr – mae hynny'n ei rwystro rhag gweithio'n iawn. Mae cyflyrwyr (conditioners) yn cael gwared ar yr halwynau yn y dŵr cyn ichi ei gymysgu â glyffosad.
- **Defnyddio'r offer cywir** – meddyliwch pa driniaethau a argymhellir fydd yn gweithio orau gan ddefnyddio cyn lleied o lafur a chwynladdwr â phosibl.
- Gan ein bod yn gallu lladd planhigion Jac y neidiwr ac os ydym wedi bod yn rheoli'r banc hadau yn y pridd am 3-5 blynedd, gallwn sôn ein bod wedi difa Jac y neidiwr yn lleol. Ond gall gymryd 3-5 blynedd i gael gwared ar boblogaethau mawr sy'n fwy na 1,000 m2.
- Mae hi'n bosibl cael gwared arno'n lleol a byddwch wedi llwyddo os bydd yr holl blanhigion wedi'u lladd a'ch bod wedi rheoli'r banc hadau am 7-15 o flynyddoedd.

Peidiwch â gwneud hyn

- Mae ymchwil gan Advanced Invasives wedi profi nad yw chwynladdwyr ag asid asetig yn lladd Jac y neidiwr.
- Os bydd eich Jac y neidiwr yn lledaenu i dir cymydog, gan gynnwys yn sgil cynnal triniaethau aneffeithiol, gellir dod ag achos sifil neu droseddol yn eich erbyn.

Diolchiadau

- Alan Abel, Cyfarwyddwr yn Complete Weed Ltd
- Gethin Bowes, Swyddog Planhigion Goresgynol, Cyngor Caerffili
- Prof Dan Eastwood, Adran Biowyddorau Prifysgol Abertawe
- Prof Mike Fowler, Adran Biowyddorau Prifysgol Abertawe
- Sophie Hocking, Adran Biowyddorau Prifysgol Abertawe
- Barrie Hunt, Rheolwr Technegol y DU ac Iwerddon, Gowan Crop Protection Ltd
- Brian Taylor, Cyfarwyddwr The Knotweed Company Ltd

Rhoi gwybodaeth yw unig ddiben y daflen hon. Os oes gennych bryderon penodol am Jac y neidiwr, gofynnwch am farn broffesiynol.

Datganiad hawlfraint

Advanced Invasives Ltd biau hawlfraint y delweddau yn y ddogfen hon -

© Advanced Invasives Ltd | 2022. Cedwir pob hawl

Gwaherddir aiddosbarthu neu ailgynhyrchu unrhyw ddelweddau yn y ddogfen hon, ac eithrio'r canlynol:

- cewch argraffu neu lawrlwytho delweddau i ddisg caled lleol at eich defnydd chi ac at ddibenion anfasnachol yn unig
- cewch anfon copi o'r cynnwys at drydydd partion unigol ar yr amod eich bod yn cydnabod bod y deunyddiau'n dod o'r ddogfen hon

Ni chewch, heb gael caniatâd ysgrifenedig penodol gennym, ddosbarthu neu ddefnyddio'r delweddau at ddibenion masnachol. Ni chewch drosglwyddo'r delweddau na'u storio ar unrhyw wefan arall neu fath arall o system adfer electronig.

Mae'r daflen wybodaeth hon wedi cael ei llunio ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Advanced Invasives Ltd

ADVANCED INVASIVES

Wrth ddyfynnu cyfeiriwch at:

Jones D (2022) Gwybodaeth i'r cyhoedd am rywogaethau goresgynol yng Nghymru: Jac y neidiwr. Llywodraeth Cymru.

Ffynonellau a ddyfynnwyd

1 Advanced Invasives *Caerphilly CBC* (2019) 2 Beerling & Perrins *J. Ecol* (1993) 3 Booy et al. *Bloomsbury* (2015) 4 BSBI *Species Accounts Impatiens capensis* (2021) 5 CEH *Centre for Ecology & Hydrology* (2004) 6 Cockeland & Tanner *Earthscan* (2012) 7 Čuda et al. *Weed Res.* (2020) 8 EA *Environment Agency* (2010) 9 Ellison et al. *Weed Res.* (2020) 10 Jones & Eastwood *Pest Manag. Sci.* (2019) 11 Jones et al. *Biol. Invasions* (2018) 12 Jones *PhD Thesis* (2015) 13 Kettenring & Adams *J Appl Ecol* (2011) 14 Myers et al. *Trends Ecol. Evol.* (2000) 15 NBN *Atlas Impatiens parviflora* (2021) 16 Panetta *Weed Res.* (2015) 17 Pattison et al. *Ecosystems* (2019) 18 Pembrokeshire Coast National Park Authority (ND) 19 RAPID LIFE (2018) 20 Rose *Warne* (2016) 21 Seeney et al. *Biol. Invasions* (2019) 22 Stace *C&M Floristics* (2019) 23 Tanner & Gange *Weed Res.* (2020) 24 Tweed *Invasives Project* (2020) 25 Williams et al. *CABI* (2010) 26 Williams & Rich *BSBI* (1998) 27 Wood et al. *Weed Res.* (2020)

Termau gweithredol

Prif dermau rheoli, gan gynnwys disgrifiadau o gynnyrch amddiffyn planhigion (PPP neu chwynladdwyr) a system IPM. Sylwch fod yr isod yn enghreifftiau gweithredol – defnyddiwr yn unig y chwynladdwyr a'r deunydd cryfhau (adjuvants/surfactants) sydd wedi'u hawdurdodi i'w defnyddio yn yr ardaloedd sy'n cael eu trin a gofawch eich bod yn defnyddio'r cynnyrch yn unol â'r cyfarwyddiadau ar y label.

Chwynladdwyr dewisol anweddiol:

- I reoli chwyn llydanddail

Enghreifftiau o awcsin synthetig –

- Phenoxy-carboxylic acids (2,4-D amine)
- Benzoic acids (dicamba)
- Pyridine-carboxylic acids (triclopyr)

Chwynladdwyr annetholus anweddiol:

- I reoli chwyn llydanddail a phorfa

Enghraifft –

- I atal synthas EPSP (Glyffosad)

Chwynladdwyr detholus gweddiol:

- Yn aros yn y pridd i atal chwyn llydanddail rhag tyfu

Enghraifft o awcsin synthetig –

- Asidau pyridin-carboxylic (aminopyralid)

Chwynladdwyr annetholus gweddiol:

- Yn aros yn y pridd i reoli chwyn llydanddail a phorfa

Enghraifft –

- I atal synthas acetolactaid ALS – sulfonylurea (flazasulfuron)

Gellir disgrifio systemau Rheoli Plâu Integredig (IPM) yn fwy penodol hefyd yn ôl y modd yr integreiddir y dulliau rheoli:

- System Rheoli Chwyn Integredig (IWM) – mae'r systemau hyn wedi'u gwir integreiddio, yn aml yn cyfuno dulliau rheoli corfforol a chemegol e.e. Triniaeth 2 – Glyffosad a thorri'r prif wreiddyn.
- System Rheoli Chwynladdwr Integredig (IHM) – mae'r systemau hyn yn integreiddio chwynladdwyr yn unig, yn aml â rhinweddau gwahanol e.e. Triniaeth 4 – gweddiol + Glyffosad.